



Mae llyfr newydd gan awdur lleol ar gael i'w brynu o

**Blas Penaeldroch** yn ystod y dydd

Neu

o **Westy Castell Elen** yn ystod y nos

Mae hefyd ar gael i'w brynu ar-lein o lledrvalley.org

**£7 gyda £2 o bob gwerthiant yn mynd tuag at 'UK Homes for Heroes'**

O'r dynion o Ddolwyddelan aeth i ffwrdd yn ystod y ddau ryfel byd, ni lwyddodd rhai i basio'r archwiliad meddygol, ni lwyddodd rhai i gyrraedd diwedd yr hyfforddiant chwe mis, bu i eraill dreulio misoedd neu hyd yn oed flynyddoedd yn Ffrainc, Groeg, Yr Almaen ayb yn ymladd yn ddewr. Roedd *pob un* eisiau gwneud yr hyn oeddent yn ei weld fel eu dyletswydd dros eu cartref a'u gwlad, Cymru.

Gadawodd dros 60 o ddynion Bont Rufeinig Dolwyddelan a Phont-y-Pant yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf i fynd i ymladd, bu i'r rhan fwyaf ohonynt oroesi, ond yn anffodus bu i 13 ohonynt farw. Caiff y 13 dyn dewr hyn eu coffáu ar ein cofeb ryfel yn y pentref. Mae'r llyfr hwn hefyd yn cofio'r rheiny wnaeth ddychwelyd. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am filwyr yr Ail Ryfel Byd o Ddolwyddelan.

Oes gennych chi unrhyw beth hoffech ei gynnwys yng **Nghylchlythyr Dolwyddelan**?

Os oes gennych chi, cysylltwch gydag un o'r aelodau ar dudalen flaen y rhifyn hwn, neu anfonwch e-bost at shaunhewitt@me.com

Caiff y cylchlythyr ei ddosbarthu i'r rhan fwyaf o dai yn Nolwyddelan, felly does dim ffordd well o rannu'r hyn sydd gennych i'w ddweud.

Bydd 'Doli yn ei Blodau' yn dechrau gwaith adnewyddu yn fuan ar erddi'r Gofeb Ryfel. Mae'n brosiect newydd cyffrous fydd yn cael gwared â'r coed meirw trist yr olwg ac yn cyflwyno cynllun newydd i'r ffin yn y cefn. Yn anffodus, bydd yn edrych yn waeth cyn ei bod yn edrych yn well, ond peidiwch â phoeni, bydd yn dwt ac yn daclus a gobeithio wedi'i chwblhau erbyn Diwrnod y Cofio eleni.